Cofnodion Cyngor dros Zoom nos Iau Mawrth 18 2021 am 7pm
Presennol: L.Roberts, E.R.Noble, M.Skerrett, Marion L Hughes, C.Brewer, T.W.Jones, C.L.Price.
Ymddiheuriadau: M.Chapman
Cadeirydd: Yr Is Gadeirydd E.R.Noble oedd yn Cadeirio'r cyfarfod.
Cofnodion: Cadarnhawyd cofnodion 13.1.21, cynnig M.Skerrett, cefnogi M.L.Hughes.

Adroddiad L.Roberts. Eto roedd L.Roberts wedi paratoi adroddiadau perthnasol i rai eitemau.

Heddlu. L.Roberts wedi cyfarfod â'r PCSO G.Thomas a D.Bellis yn y pentref, Delia Bellis fydd y cyswllt gyda'r Cyngor, Mae hi a'r Swyddog Ieuenctid Rhydian yn bwriadu cyfarfod gyda ieuenctid y pentref. Bydd Rhydian yn gallu gweithio'n rheolaidd gyda'r ieuenctid pan fydd y 'clo' wedi'i godi.

Yr A470. Gwaith ail wynebu'r A470 i ddigwydd yn fuan, dim sicrwydd ym mhle yn union.

Cyngor Sir. L.Roberts wedi trafod cyflwr Ffordd Tŷ Isaf gyda K.Jones gan ofyn i'r Adran ERF am gael ail wynebu'r holl ffordd o'r Ysgol hyd at Llyn Pedair Llath, hefyd gofyn am waith ar rhannau o Ffordd Roman rhwng Gorddinan a Thŷ Capel. Wedi trafod cyflwr Ffordd Tŷ Isaf gyda'r Bwrdd Dŵr hefyd a chael atebiad gan B.Parry wnaeth gytuno y buasai'n ymweld â'r safle. Clerc wedi cael eglurhad mae'r rheswm dros yr holl loriau yn teithio i safle'r Bwrdd Dŵr oedd fod y 'tanciau' yno angen ei glanhau'r llwyr yn dilyn llifogydd.
C.Price yn nodi fod angen gwaith ar Ffordd Cyfyng, Clerc i gysylltu.

Llwybrau. L.Roberts wedi paratoi templed o lwybrau'r ardal a chyda caniatad yr Aelodau buasai'n gosod hwn ar App Grwp Cofid fuasai'n galluogi cerddwyr i nodi sylwadau am lwybyr arbennig - cytunwyd. Mae hi a'r Cadeirydd mewn cyswllt ag adrannau NRW, Parc a CBSC. Hoffai Liz i'r Cyngor ystyried ail sefydlu y Pwyllgor Llwybrau yn y Cyfarfod Blynyddol.

Yr Orsaf. Mae Dolwyddelan yn ei Blodau wedi prynu 2 fainc ar gyfer y safle yn dilyn derbyn grantiau gan Dref Werdd Blaenau a Conwy Cynhaliol. Mae'r Cyngor Cymuned wedi llwyddo i gael grant o £500 gan y Parc Cenedlaethol ar gyfer cael byrddau picnic yn ardal yr Orsaf, Clerc wedi trefnu ar gyfer eu harchebu. Aelodau Dolwyddelan yn ei Blodau wedi gosod cafnau blodau yn nhir yr Orsaf. Y Cyngor Cymuned eisoes wedi cytuno i gyfrannu £500 iddynt tuag at eu gwaith arbennig o amgylch y pentref.

Pont Carreg Alltrem. Mae CNCymru wedi cytuno i osod plac newydd yn yr ardal i nodi fod disgyblion Ysgol Dolwyddelan wedi bod yn rhan o blannu coed yno.

Gwasanaeth Bysiau/Trenau. Deallwyd efallai na fydd y gwasanaeth Traws Cymru yn cychwyn tan mis Medi oherwydd y Cofid ac ati. Clerc i holi tybed pa bryd bydd trenau yn ail gychwyn?

Pontydd yn yr Ardal. Atebiad gan B.Shiland CBSC yn cadarnhau eu bod wedi trefnu cael ymgynghorydd arall i geisio symud y cais ar gyfer Pont Sarn Ddu ymlaen. Gobeithio cwblhau gwaith ar Bont Hendre yn 2021 gyda chydweithrediad CNCymru. Asessiad o gyflwr y bont ym Mhont y Pant i'w gwblhau yn 2020/21.

Cydnabyddiaeth Aelodau. Gwybodaeth wedi ei ddosbarthu i'r Aelodau.

Cynlluniau.
Llys y Gwynt: Dim i'w adrodd.
9 Castle Terrace: Clerc wedi anfon y cais i'r Aelodau - dim gwrthwynebiadau.

Llifogydd. Ni chafwyd diweddariad.

Coeden Nadolig. Clerc wedi cael ar ddeall nad oedd A.Farrar yn dymuno derbyn taliad, llythyr i'w anfon ato i ddiolch iddo am ei haelioni.

Scottish Power. Y cwmni yn dod yn ôl i gwblhau'r gwaith yn y flwyddyn newydd.

Band eang. Dim o bwys i'w adrodd ar hyn o bryd.

NRW. Deallwyd fod Cyfansoddiad wedi'i baratoi ar gyfer y Pwyllgor Preswylwyr, CNCymru ddim yn hapus i drafod os na fydd cynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned, dyna mae L.Roberts yn wneud. Cafwyd trafodaeth eithaf 'agored' ar y mater.

Terfyn gyrru. Cytunwyd i anfon at W.Roberts CBSC i gadarnhau yr hoffai'r Aelodau weld terfyn 20mya ym mhob rhan o'r pentref.

Toiledau. Cadarnhaodd y Clerc fod 3 person lleol wedi datgan diddordeb ac wrth gwrs roedd rhaid cofio'r opsiwn o CBSC i wneud y gwaith. Cafwyd trafodaeth adeiladol gan gynnwys y telerau, angen glanhau awr y dydd am 4 diwrnod yn yr Haf, 2 ddiwrnod yn y Gaeaf, hyn i'w adolygu fel bo angen. Cafwyd sawl barn a sylw cyn i L.Roberts gynnig gyda M.L.Hughes yn cefnogi, a mwyafrif o blaid, y dylid ceisio cael person lleol ar gyfer y gwaith. Clerc i gysylltu a'r ymgeiswyr gan ofyn iddynt anfon llythyr i'r Cyngor yn egluro eu rhesymau dros wneud eu cais a rhoi y telerau iddynt, atebiad erbyn Mawrth 29. Mae hi'n rhwystredig trafod heb wybod yn iawn sut bydd y lle yn edrych, yn arbennig felly y drysau?

Gofgolofn.
Mae'r is bwyllgor wedi cyfarfod ag arbenigwr yn y Gofgolofn i drafod cynllun tirlunio'r safle, rhaid aros am ei ymateb. Cytunwyd y dylid gosod arwydd yn y safle pan fydd y gwaith yn cymryd lle, cynigodd M.Skerrett i baratoi arwydd addas.
Y Fynwent
Derbyniwyd amcan gyfrif Dylan Webber ar gyfer y gwaith o dorri y lleiaf o'r ddwy goeden yn nhir y Fynwent a chlirio'r iddew sy'n gorchuddio'r cwt, D.Williams yn hapus iddo fynd ar ei dir. Les Roberts am roi pris i glirio a thirlunio'r tir ar gyfer y cwt. Bydd angen cael pris ar gyfer ffens yn y tir ar gyfer y cwt ac ar gyfer ail godi rhannau o'r wal derfyn.

Ariannol. Rhoes y Clerc adroddiad am y sefyllfa bresennol i'r Aelodau a chytunwyd ar y biliau i'w talu, cynnig M.Skerrett, cefnogi L.Roberts. Roedd hyn yn cynnwys codi'r tâl ar gyfer gwagio'r biniau cŵn o fis Ebrill. Cytunwyd i beidio cyflwyno rhoddion i fudiadau ar hyn o bryd ond i'w cyflwyno unwaith y byddant wedi ail ddechrau cyfarfod.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Clerc i alw cyfarfod Zoom arall at ddiwedd y mis wedi derbyn atebion gan ymgeiswyr glanhau'r toiledau.